

# **Cronfa Adferiad Covid-19 ar gyfer Gwelliannau Awyr Agored**

## Canllawiau i ymgeiswyr

## Geirfa

*Defnyddir nifer o dermau yn y pecyn cais. Mae'r eirfa isod yn rhoi diffiniadau o rai o'r termau a ddefnyddir:*

**Menter** – mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, unrhyw endid sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd, waeth beth fo'i ffurf gyfreithiol. Mae hyn yn cynnwys pobl hunangyflogedig a phartneriaethau neu gymdeithasau sy'n ymwneud â gweithgaredd economaidd yn rheolaidd.

**Menter fawr** - Unrhyw fenter nad yw'n fusnes bach a chanolig.

**Menter ganolig** - Yn cyflogi llai na 250 o bobl a naill ai â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn EUR, neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn EUR.

**Effaith gadarnhaol ar drefflun** - Gwelliannau i ffasâd allanol adeiladau sy'n gwella cyfraniad yr adeilad i'r strydwlun wrth gyd-fynd â Chanllawiau Dylunio'r Cyngor.

**Menter fach** - Yn cyflogi llai na 50 o bobl a throsiant blynyddol fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 10 miliwn EUR.

**Amrywiad** - yn newid cwmpas y gwaith mewn contract adeiladu ar ffurf ychwanegiad, amnewidiad neu hepgoriad o gwmpas gwreiddiol y gwaith.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r cyllid hwn i'w ddefnyddio ar gyfer ymyriadau allanol er mwyn hwyluso pellhau cymdeithasol a llai o ddwysedd mewn ardaloedd allanol lle mae cwsmeriaid ac aelodau'r cyhoedd i ymgynnull, cael bwyd/diod neu orffwys. Rhaid i'r gwelliannau a wneir fod o fewn perchnogaeth neu lesddaliad yr ymgeisydd o'r eiddo.

1.2 Gwaith Cymwys: Mae'r canllaw canlynol yn cynnwys enghreifftiau o'r math o waith y gellid ei gefnogi. Bydd swyddogion yn asesu pob cynllun fesul achos i bennu pa waith sy'n gymwys. Gall eitemau gynnwys -

- Cysgodlenni allanol, canopiâu, swigod iglw, gwresogi allanol, toeau marcî. Mae angen cyflawni'r gwelliannau allanol hyn yn y fath fodd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyngor meddygol cyfredol. Dylent hwyluso gofod masnachu awyr agored. Dylid ystyried effeithiau golau haul, cyfeiriad a dwyster y gwynt, pellter cymdeithasol a threfniadau golchi dwylo effeithiol ochr yn ochr ag unrhyw ymyrraeth.

Yn benodol o ran defnyddio gorchuddion corfforol, dylai cysgodlenni, gazebos neu bebyll mawr fod ar agor ar 3 neu 4 ochr er mwyn cael eu hystyried a'u trin fel amgylchedd allanol. Rhaid i orchuddion, cysgodlenni, pebyll mawr neu gazebos fod naill ai'n dryloyw neu fod wedi'u gwneud o orchudd ysgafn er mwyn sicrhau bod golau haul yn cael ei drosglwyddo. Mae'n hanfodol, os yw pebyll mawr i gael eu defnyddio, bod

angen eu defnyddio a'u plismona'n effeithiol er mwyn peidio â chaniatáu ar gyfer cynulleidfa gyfyng ormodol na fyddai'n cydymffurfio â gofynion pellhau cymdeithasol effeithiol.

Dylid darparu byrddau, cadeiriau a darpariaeth seddau allanol yn unol â'r canllawiau cyfredol ar ofynion pellhau cymdeithasol.

Dylid darparu sgrinio allanol, bolardiau, potiau planhigion yn unol â'r gofynion pellhau cymdeithasol cyfredol. Ni ddylai unrhyw gynigion a gyflwynir rwystro traffig cerddwyr ar balmentydd, llwybrau neu fannau cyhoeddus.

- Cyfleusterau gweini allanol.
- Gosod manau parcio (gan ddefnyddio lleoedd parcio a darparu deciau i adeiladu strwythurau pren arnynt, gan ddarparu ardaloedd bach dan do sy'n cynnig rhywfaint o gysgod rhag y tywydd).
- Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd Bach yn enwedig lle mae lle mae'n bosibl eistedd
- Sefydlu, mabwysiadu a defnyddio lleoedd masnachu gwag dros dro i ymdopi â gorlenwi, defnydd dros dro, siopau naid a gweithredu entrepreneuriaid
- Cyflenwad trydan a goleuadau i ofod masnachu awyr agored
- Sefydlu darpariaeth marchnad awyr agored i gynnwys darpariaeth drydan.
- Mesurau pellhau cymdeithasol
- Gellir ystyried ymyriadau eraill hefyd sy'n hwyluso pellhau cymdeithasol a llai o ddwysedd yn yr amgylchedd allanol fel addasiadau blaen siop, gwelliannau cwrt/gardd gefn, ac addasiadau i dir y cyhoedd (yn amodol ar gynllunio a chymeradwyaeth leol)

Er bod hwn yn cael ei ystyried yn ddatrysiad tymor byr ac uniongyrchol, dylai'r holl gynigion i'w cefnogi allu dangos eu bod yn cael effaith barhaol ar ganol ein trefi ac yn alinio lle bo hynny'n bosibl â chynigion ehangach sy'n ymwneud ag addasiadau i dir y cyhoedd.

## **2. Y Grant**

2.1 Bydd y grant yn uchafswm o 80% o'r costau cymwys, hyd at ddyfarniad grant uchaf o £10,000 heb gynnwys TAW (os yw'n berthnasol). Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol.

2.2 Mae pob grant yn ôl disgrisiwn y Cyngor ac yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael. Asesir swm unrhyw grant a gynigir ar sail prosiect unigol. Mae'r arian grant sydd ar gael yn gyfyngedig a chaiff ei ddyfarnu ar sail gystadleuol.

2.3 Fel rheol, dyfernir grantiau heb gynnwys TAW. Os na all yr ymgeisydd adennill TAW gellir derbyn hyn fel cost gymwys yn ôl disgrisiwn y Cyngor, yn amodol ar yr ymgeisydd yn ymrwymo i ad-dalu i'r Cyngor unrhyw elfen TAW a ddaw yn ôl o Gyllid a Thollau EM yn ddiweddarach o ganlyniad i newid yn statws TAW yr ymgeisydd.

2.4 Fel rheol, telir y Grant mewn rhandaliadau y cytunwyd arnynt ar gynhyrchu anfonebau/derbynebau a thystysgrifau interim a thystiolaeth talu ac ati. (Gweler Adran 13. Talu Grantiau)

2.5 Bydd o leiaf 10% o gyfanswm y dyfarniad Grant yn cael ei ddal yn ôl (Cadw) nes bod y Cyngor yn fodlon bod yr holl waith wedi'i gwblhau i'r safon ofynnol, fel y datganwyd gan Syrffewr Meintiau annibynnol, a bod y Cyngor wedi derbyn copi o'r dystysgrif cwblhad ymarferol.

2.6 Bydd angen cytuno ar unrhyw newid i waith a gymeradwywyd ymlaen llaw gyda'r Cyngor.

### **3. Ymgeiswyr cymwys**

3.1 Mae'r rhaglen yn agored i Rydd-ddeiliaid, Unig Fasnachwyr, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Busnesau Cymunedol, Cwmnïau Cydweithredol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ogystal â'r Awdurdodau Lleol a Chynghorau Tref.

3.2 Dim ond i berchnogion buddiant rhydd-ddaliadol yn yr eiddo neu i lesddeiliad sy'n dal prydles gyfredol ar yr eiddo y bydd grantiau ar gyfer gwaith i eiddo ar gael ar adeg derbyn cais dilys. Os yw'n lesddeiliad, rhaid i ymgeiswyr ddarparu llythyr gan y rhydd-ddeiliad yn cydsynio i'r gwaith arfaethedig a chopi o'r cytundeb prydles os yw gwaith yn cael ei wneud i'r eiddo

**Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod yr holl ofynion perchnogaeth tir angenrheidiol ar waith i weithredu'r cynllun**

### **4. Y Broses Ymgeisio**

4.1 Bydd y broses ymgeisio yn gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno'r ddogfennaeth ategol ganlynol i gyd-fynd â'r ffurflen gais:

- Yn ddarostyngedig i'r gwerth, mae'n ofynnol cyflwyno 2-3 dyfynbris gyda'r gwaith wedi'i eitemeiddio
- Ffotograffau diweddar o'r eiddo
- Copïau o'r holl gydsyniadau statudol perthnasol (lle bo hynny'n berthnasol)
- Copi o dystysgrif yswiriant adeilad
- Llythyr cydsynio gan Rydd-ddeiliad (os mai Lesddeiliad yw'r ymgeisydd)
- Copi o gytundeb prydles gan Rydd-ddeiliad (os mai Lesddeiliad yw'r ymgeisydd)
- Tystiolaeth o arian cyfatebol - cadarnhewch sut rydych chi'n bwriadu cyllido'ch cyfraniad chi i'r prosiect cyfan. Dylai cadarnhad fod ar ffurf llythyr banc neu ddogfennaeth swyddogol arall (bydd angen gwaith papur gwreiddiol) fel datganiad banc.
- Adroddiad Arolwg (os yw'n berthnasol)

## **5. Contractwyr**

5.1 Efallai y bydd yn ofynnol i gontractwyr sy'n dymuno cyflwyno dyfynbris ddangos hanes o weithio ar brosiectau tebyg.

5.2 Pan fydd gan ymgeiswyr fuddiant mewn cwmnïau sy'n dymuno cyflwyno dyfynbris am y gwaith, caniateir hyn, ond fe'i cyfyngir i uchafswm o un cwmni i bob prosiect.

5.3 Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr prosiect, neu bobl sy'n gysylltiedig â hwy (fel perthnasau, partneriaid busnes neu ffrindiau) am gyflwyno dyfynbris am gontract sy'n cael ei gynnig gan ymgeisydd y prosiect. Er nad yw hyn yn annerbyniol, rhaid datgan perthnasoedd o'r fath, a bydd angen i'r ymgeisydd sicrhau ei fod yn dal yn cynnal y trafodiad mewn modd agored a thryloyw. Rhaid i'r dyfynbrisiau fod gan gwmnïau masnachu cofrestredig

5.4 Cyn dyfynnu (lle bo hynny'n berthnasol), rhaid i ddarpar gontractwyr gynnal ymweliad safle gorfodol i ddarganfod natur y safle, mynediad ac amodau lleol a chyfyngiadau sy'n debygol o effeithio ar gyflawni'r gwaith.

5.5 Rhaid i gontractwyr brisio pob eitem ar y dyfynbrisiau.

5.6 Bydd yn ofynnol i bob contractwr (lle bo hynny'n berthnasol) gyflwyno copi o'u Hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus cyfredol

5.7 Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw rheoli contractwyr oni chytunir yn ysgrifenedig gan y Cyngor.

## 6. Caffael

6.1 Wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau, dylai ymgeiswyr anelu at gael gwerth am arian wrth gynnig cyfle i ystod o fusnesau ddarparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau hynny mewn modd teg a thryloyw. Felly mae'n rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod y gweithdrefnau caffael canlynol yn cael eu mabwysiadu yn unol ag amcangyfrif o werth uchaf y contract yn y cam sicrhau dyfynbrisiau.

Gwerth Amcangyfrifedig	Dyfynbris sy'n ofynnol
£0 i £5000	2 ddyfynbris
£5001 i 10,000	3 dyfynbris

6.2. Y Cyngor fydd yn penderfynu ar swm y grant a gynnigir i bob prosiect

## 7. Allbynnau

7.1 Dylai ymgeiswyr nodi y bydd disgwyl i brosiectau gyflawni yn erbyn yr allbynnau canlynol -

Nifer y swyddi newydd a grëwyd
Nifer y swyddi presennol a ddiogelir
Nifer y busnesau sy'n gweithredu yn yr adeilad
Nifer y contractwyr / cyflenwyr lleol

7.2 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod tystiolaeth i gefnogi unrhyw allbynnau ar gael i'r Cyngor, hyd yn oed os yw'r eiddo'n cael ei brydlesu i drydydd parti.

## 8. Gofynion a disgwyliadau statudol

8.1 Dylai ceisiadau ddarparu cadarnhad o unrhyw gydsyniad neu ganiatâd gofynnol, fel Caniatâd Cynllunio, Rheoliadau Adeiladu, Newid Defnydd, neu ganiatâd Adeiladau Rhestredig. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am geisio pob caniatâd priodol sydd ei angen i gyflawni'r prosiect a sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio.

8.2 Disgwylir i ymgeiswyr beidio â bod mewn ôl-ddyledion gyda thaliadau nac mewn anghydfod â'r Cyngor yn y cam cymeradwyo grant a cham talu'r prosiect.

8.3 Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid i bob gwaith gydymffurfio â'r Canllawiau Dylunio a gyhoeddwyd gan y Cyngor a'r arweiniad yn y llythyr atodlen. Mae swyddogion y cyngor hefyd wrth law i roi cyngor ar gydymffurfio â'r Canllawiau Dylunio.

8.4 Bydd eiddo neu eiddo rhestredig mewn Ardal Gadwraeth yn ddarostyngedig i amodau pellach yn unol â chyngor y Cyngor.

8.5 Rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod ei fusnes a'i adeilad yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd amgylcheddol, safonau masnach a diogelu defnyddwyr perthnasol ac nad oes ganddo hanes o ddiffyg cydymffurfio nac euogfarnau mewn perthynas â'r busnesau presennol neu flaenorol a weithredir gan yr un busnesau.

## **9. Y Broses gwneud Penderfyniadau**

9.1 Bydd Swyddogion y Cyngor yn cynnal asesiad o'r cais gorffenedig a'r ddogfennaeth ategol lawn. Yn ystod y broses hon gellir gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ymgeiswyr.

9.2 Anfonir llythyr cynnig grant i ymgeiswyr llwyddiannus ynghyd â thelerau ac amodau perthnasol.

9.3 Rhoddir llythyr hysbysu i ymgeiswyr aflwyddiannus.

## **10. Yswiriant**

10.1 Am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad dyfarnu'r grant, rhaid i'r ymgeisydd yswirio'r eiddo'n gynhwysfawr gyda chwmni yswiriant ag enw da ac, os gofynnir am hynny, darparu tystiolaeth o'r yswiriant hwnnw i'r Cyngor.

## **11. Cymorth Gwladwriaethol**

11.1 Er mwyn lleihau ystumio cystadleuaeth, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod cyfyngiadau ar faint o gymorth y gellir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei amgylchiadau penodol.

## **12. Talu grantiau**

12.1 Ni thelir y grant nes bod yr holl waith wedi'i gwblhau i foddhad y Cyngor ac yn ddarostyngedig i'r canlynol:

- i. Cyflwyno anfoneb(au)/derbynebaw gwreiddiol a ffurflen hawlio Grant.
- ii. Gwiriad refeniw boddhaol (cadarnhad nad yw'r ymgeisydd mewn ôl-ddyledion gyda'r Cyngor).
- iii. Cadarnhad y cydymffurfiwyd â'r holl gydsyniadau statudol angenrheidiol sy'n ymwneud ag lechyd yr Amgylchedd a/neu ddiogelu'r cyhoedd (os yw'n berthnasol).

- iv. Cadarnhad y cydymffurfiwyd gyda'r holl gydsyniadau statudol angenrheidiol gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i *Ganiatâd Cynllunio, Rheoliadau Adeiladu, Newid Defnydd, neu Ganiatâd Adeiladau Rhestredig.*

12.2 Ystyrir taliadau dros dro yn ôl disgrisiwn y Cyngor.

12.3 Ni fydd anfonebau a delir trwy gerdyn credyd/ hurbwrcasu/cytundebau credyd estynedig/prydlesi cyllid/gwrth-anfonebau ac arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant; Rhaid i'r taliadau fod ar ffurf BACS, taliadau Faster, cerdyn debyd, CHAPS neu siec.

### **13. Cyhoeddusrwydd**

13.1 Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i roi cyhoeddusrwydd i unrhyw brosiect a gefnogir.

### **14. Monitro**

14.1 Caniateir i swyddogion y Cyngor gael mynediad llawn i'r eiddo er mwyn iddynt werthuso effeithiolrwydd y cymorth grant a gwirio'i fod yn cydymffurfio â'i delerau a'i amodau. Cysylltir â'r ymgeisydd maes o law er mwyn trefnu ymweliad monitro. Bydd cynrychiolwyr o'r Cyngor yn ymweld â'r cynllun y rhoddwyd cymorth grant iddo i fonitro cynnydd y gwaith. Wedi hynny, trefnir yr ymweliadau hyn bob 6 mis nes bod yr holl amodau ac allbynnau wedi'u cyrraedd a'u dangos.

### **15. Telerau ac amodau**

15.1 Darperir copi o'r telerau ac amodau ar gyfer Cronfa COVID 19 gyda'r cynnig grant ffurfiol.

### **16. Y Gymraeg**

16.1 Ni fydd ceisiadau yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau yn Saesneg, yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### **17. Cyflwyno ceisiadau**

17.1 Dylid anfon ceisiadau i'r cyfeiriad canlynol:-

**Regeneration@bridgend.gov.uk**